CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher 18 Hydref 2017** am **5.00pm**.

AGENDA

Tud.

DATGAN BUDDIANT

1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017, yn rhai cywir. **1– 10**

4 LLYWODRAETH AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

(a) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L. M. Adams)**

"Beth yw'r materion o'r pwys mwyaf sy'n effeithio ar faterion craffu a llywodraethu yn y Cyngor hwn?"

(b) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L. Jones i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan)**

"A fyddai'n bosibl i'r Cyngor drwsio'r ffyrdd mewn cyflwr gwael sydd heb eu mabwysiadu, a heb eu cofrestru, i ganiatáu, i ddiogelu ac i wella mynediad yng nghyffiniau'r ffyrdd hynny ar gyfer y trigolion?"

(c) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Chapman i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan)**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar bolisi'r Cyngor o ran clirio'r lonydd cefn ar hyd a lled y Sir?"

(d) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Fychan i Arweinydd y Cyngor neu i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A. Morgan a D. R. Bevan, yn y drefn honno)**

"Mae caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf wedi ei roi erbyn hyn, felly, a all yr Arweinydd / yr Aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn a fydd yn digwydd nesaf ac am sut bydd trigolion Pontypridd yn rhan o'r broses?"

(e) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hopkins)**

"Sut mae'r Cyngor yn ceisio bodloni'r disgwyliadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?"

7 TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL

Yn unol â pharagraff 13.2 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor i gychwyn trafodaeth yr Arweinydd.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

8 Newid i Aelodaeth o Awdurdod Cyfun Gwasanaeth Tân De Cymru

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. **11 – 12**

9 Penderfyniadau brys yr Adain Weithredol i'w symud ymlaen

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet. **13 - 17**

10 Rhybuddion o Gynigion

(1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M. Griffiths, G. E. Hopkins, L. M. Adams, J. Bonetto, S. Bradwick, A. Morgan ac M. Webber:-

"Mae'r Cyngor hwn yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig i ganslo trydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe.

Byddai trydaneiddio'r llinell hon wedi creu mynediad i dechnolegau trenau yn ne Cymru sydd cydradd â'r hyn sy'n cael ei greu mewn rhannau o dde Lloegr. Byddai wedi caniatáu'r potensial i gynyddu nifer y trenau sy'n stopio yng ngorsafoedd Llanharan a Phont-y-clun – rhywbeth mae ein cymunedau wedi galw amdano dro ar ôl tro.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod potensial economaidd yr ardaloedd o amgylch Pont-y-clun a Llanharan; ac mae wedi ymrwymo i gefnogi eu datblygiad drwy fuddsoddi mewn cysylltiadau trafnidiaeth gwell. Rydyn ni'n edifarhau'r cam yn ôl, cibddall, gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n dangos ei meddwl isel o gymunedau de Cymru."

(2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, H. Fychan, D. Grehan, S. Rees-Owen, E. Webster, D. Macey, J. Williams, A. Cox, S. Evans-Fear, A. Chapman, L. Jones, E. Stephens, W. Jones, J. Davies a J. Cullwick:-

“Bod y Cyngor hwn yn cynnal gwerthusiad opsiynau gyda Llywodraeth Cymru ynghyd â'r opsiynau trafnidiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i ystyried estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.”

11 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor
11 Hydref 2017